# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 11 Chwefror 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6081

## 260(v4)

### Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofyn i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i leddfu'r sefyllfa sy'n wynebu trigolion Dyffryn Conwy yn dilyn y llifogydd diweddar?

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.45

Gofynnwyd cwestiwn 1 i 2 a 4 i 9. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.42

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.07

## 4 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Ymgynghoriad ar bolisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd

Dechreuodd yr eitem am 15.43

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Strategaeth Unigrwydd ac Arwahanrwydd

Dechreuodd yr eitem am 16.04

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Grant Cymorth Tai

Dechreuodd yr eitem am 16.42

## 7 Dadl: Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu a Rhaglen Ddeddfwriaethol

Dechreuodd yr eitem am 17.24

**NDM7265** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 11.21(ii):

Yn nodi:

a) adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2019;

b) y rhaglen ddeddfwriaethol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro i ba raddau y mae'r addewidion ym maniffesto'r Prif Weinidog ar gyfer arweinydd Llafur Cymru bellach yn rhan swyddogol o strategaeth genedlaethol y Llywodraeth, Ffyniant i Bawb.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Gwelliant 2** – Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am restr glir a syml o ddangosyddion y gellir dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn eu herbyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 1 | 28 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7265** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 11.21(ii):

Yn nodi:

a) adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2019;

b) y rhaglen ddeddfwriaethol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro i ba raddau y mae'r addewidion ym maniffesto'r Prif Weinidog ar gyfer arweinydd Llafur Cymru bellach yn rhan swyddogol o strategaeth genedlaethol y Llywodraeth, Ffyniant i Bawb.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 10 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.13

Daeth y cyfarfod i ben am 18.14

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 12 Chwefror 2020